

## Datganiad o Resymau

### Y Bwriad i Gyflwyno Cyfyngiad Parcio ar ffurf Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho – Ystâd Ddiwydiannol Tredŵr.

Cynigir cyflwyno cyfyngiad newydd, sef gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar rai ffyrdd o fewn Ystâd Ddiwydiannol Tredŵr.

Bernir ei bod yn briodol rhoi'r Gorchymyn arfaethedig ar waith at y dibenion a geir yn Adrannau 1 (a) ac (c) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Road 1984 fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bersonau neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall neu atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi

(c) hwyluso tramwy unrhyw ddosbarth o draffig (gan gynnwys cerddwyr) ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall

Bernir y bydd y cynllun yn gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Cynigir y cynllun fel a ganlyn:

#### Brocastle Avenue, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar yr ochr orllewinol i'r gogledd o gylchfan Brocastle, tua'r gogledd am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
- (ii) Ar yr ochr ddwyreiniol, i'r gogledd o gylchfan Brocastle, tua'r gogledd am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
- (iii) Ar yr ochr orllewinol i'r de o gylchfan Brocastle, tua'r de am bellter o ryw 30 metr (33 llath).
- (iv) Ar yr ochr ddwyreiniol i'r de o gylchfan Brocastle, tua'r de am bellter o ryw 30 metr (33 llath).

#### Horsefair Road, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar yr ochr ogleddol wrth bwynt gorllewinol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 295 metr (323 llath).
- (ii) Ar yr ochr ddeheuol wrth bwynt gorllewinol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 295 metr (323 llath).

#### Moor Road, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr

- (i) Ar yr ochr ogleddol wrth bwynt dwyreiniol y ffordd, tua'r gorllewin am bellter o ryw 45 metr (49 llath).
- (ii) Ar yr ochr ddeheuol wrth bwynt dwyreiniol y ffordd tua'r gorllewin am bellter o ryw 65 metr (71 llath).

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gyflwyno'r gwaharddiad ar aros, llwytho a dadlwytho ai peidio, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan Ddeddf 1984 (i'r graddau y mae'n ymarferol gan roi sylw i'r materion a bennir yn adran 122(2)) er mwyn sicrhau bod traffig cerbydau a thraffig eraill (gan gynnwys cerddwyr) yn symud yn gyflym, yn gyfleus ac yn ddiogel a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi arni.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn adran 122(2) yw:-

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i fangreoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu defnydd ffyrdd gan gerbydau masnachol trwm er mwyn diogelu neu wella amwynderau'r ardaloedd y mae'r ffyrdd yn rhedeg drwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a baratowyd o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso tramwy cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra personau sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill y mae'n ymddangos i'r Cyngor eu bod yn berthnasol.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd yn adran 122, bernir ei bod yn briodol cyflwyno'r cyfyngiadau parcio arfaethedig.

Dangosir y trefniant presennol ar Blan BU35 DIW1 a dangosir y cynllun arfaethedig ar Blaniau BU35 Diw 1 / BU36 Diw 0 a BV35 Diw 0.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd y marciau ffordd ar gyfer y cyfyngiad yn cydymffurfio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.